



Merched y Wawr
Cwm Rhymni



Dathlu'r Deg



PWYLLGOR A SWYDDOGION

Cadeirydd: Robert Dutt

Ysgrifennydd Cofnodion: Ann Lewis



*Ariennir yn
rhannol gan
Lywodraeth
Cymru*

Trysorydd: Eyron Thomas e.thomas119@btinternet.com

Golygydd: Ben Jones benamary2000@yahoo.co.uk 02920 862428 07891916046

Ysgrifennydd: Marian Fairclough faircloughmarian@gmail.com 02920 885151

Cynorthwy-ydd: Jan Penney

Dosbarthu a Golygydd Llundain: Mary Jones

Y Pwyllgor: Eirlys Thomas, Gareth W. Williams, Dilys Williams, Dafydd Islwyn,
Jenni Jones-Annetts

Ieuenctid: Morgan Roberts, Swyddog Prosiect Llais,

Hysbysebu: Bethan Jones, Menter Iaith

Gweplyfr/ Facebook: Papur Bro Cwmni

Gwefan: menter.aerffili.cymru/ 

e-bost: Golygydd@papurcwmni.cymru/ benamary2000@yahoo.co.uk

Cedwir yr hawl i gwtogi neu newid erthyglau neu luniau yn unol â gofynion golygyddol.

Argraffu Tower Print, Uned 12a, Ystâd Ddiwydiannol Tŷ Bedwas, Caerffili, CF83 8DW

DEDDF NEWYDD PREIFATRWYDD—DARLLENWCH

Os ydych yn darllen “Cwmni”, gall hyn olygu fod eich data personol yn cael ei ddal gennym. Fel y gwyddoch, mae deddfau diogelu data wedi newid ers mis Mai, ac felly mae gennym yn awr Rybuddion Preifatrwydd mewn lle sydd yn egluro wrthyh sut y gallwn brosesu eich data personol, fel cwsmeriaid neu gleientiaid inni, ac ar ba sail cyfreithiol yr ydym yn gallu gwneud hynny, a sut yr ydym yn cadw eich data personol yn saff.

Os hoffech dderbyn copi o'r Rhybudd Preifatrwydd, gallwch wneud hynny drwy ymweld â gwefan y papur: entercaerffili.cymru/ 

Am fwy o wybodaeth, cysylltwch gyda'r Golygydd. Gweler manylion cysylltu uchod.

Oedfaon Mis Ebrill Capeli Cymraeg

Bedyddwyr Tonyfelin

7fed 10.30 a 6.00: Parch Milton Jenkins

14fed 10.30 a 6.00: Parch Peter Dewi Richards

21ain Yn Bethel trwy'r dydd

28ain 10.30 a 6.00: I'w drefnu

Penuel, Rhymni

Parch T.Jones

Parch D.A.Jones

Y Pasg

Parch Aled Thomas

Bethel Annibynwyr, Ffordd Nantgarw

7fed 10.30. Parch Dr. R.Alun Evans (C)

14eg 10.30. Parch. Lona Roberts

21ain 10.30. Parch. Robert Owen Griffiths.(C)

28ain 10.30 a 6 y.h. Tonyfelin

5ed Mai 10.30. Sul Cymorth Cristnogol.

Capel y Groeswen


14eg o Ebrill

GWASANAETH y PASG

Pastor Martyn Lewis

Dyfodol Tref Caerffili (2)

Bu'r erthyglau blaenorol am gynlluniau ar gyfer tref Caerffili yn fodd o ennyn dipyn o ddiddordeb ymhlith ein darllenwyr. Seiliwyd yr erthyglau yn bennaf ar gynnwys "Caerphilly Basin Masterplan", dogfen a dderbyniwyd gan y Cyngor Bwrdeistref Sirol yn ystod 2018, ac hefyd, drwy drafod yr argymhellion gyda rhai o'n cynghorwyr.



Heol Caerdydd yn ystod hanner cyntaf C20ain

Yn y rhan sy'n delio â Heol Caerdydd rhoddwyd sylw i natur yr adeiladau ar yr ochr orllewinol h.y. yr ochr chwith wrth deithio i lawr tuag at y castell. Daw gwelliannau i'r adeilad sydd ar gornel Stryd Pentrebane a Heol Caerdydd. Fel canlyniad i'r gwaith sydd ar droed gall y gwaith ar y "Ladies Lounge" tri llawr arwain at siop gyda llety preswyl ar y lloriau uchaf.

Ar Heol Pentrebane ceir y prif fynediad i'r farchnad dan do sydd wedi bod gyda ni ers 1927. Dywedir nad oes llawer o bobol yn cefnogi'r farchnad am nad yw'n ymylu ar y stryd fawr. Does dim gwerth pensaernïol i'r adeilad a byddai angen hyrwyddo'r farchnad petai'n cael ei adnewyddu. Roedd hi'n fwriad, ar un adeg i ddatblygu safle'r farchnad fel rhan o ddatblygiadau Stryd Clive a Stryd Pentrebane, ond er mwyn symud pethau ymlaen ym mhen ucha'r dref, cytunwyd rhannu'r safle. Fel canlyniad, mae gwell golwg ar y gornel fel canlyniad i ddatblygu tafarn y Malcolm Uphill a'r bwyty Eidalaidd, Volare. Ac mae'r cynllunwyr bellach a'u llygaid ar y rhan yma o'r dref drwy roi ystyriaeth yn yr adroddiad i wahardd traffig o Stryd Pentrebane a Stryd Clive, er mwyn hwyluso pethau i siopwyr.

Ar yr ochr negyddol mae'n anochel bod sôn am adeiladu mwy o dai. Mae'n anodd gwrthwynebu datblygiadau ar safleoedd caeau llwyd (*brownfield*).

Mae nifer o'r rhain ym Masn Caerffili, er enghraifft, safle glofa'r Windsor yn Abertridwr, Glofa Bedwas ac, wrth gwrs, safle Thomas Ness y tu ôl i'r brif orsaf a Prince's Avenue.

.Tra bo galw am fwy o dai, prin fod lle iddynt yn ardal tref Caerffili gyda'r holl dagfeydd traffig mae'r trigolion yn eu dioddef ar hyn o bryd. Argymhellir gwarchod yr opsiwn o gwblhau'r ffordd osgoi yn gylch cyflawn drwy adeiladu'r darn de-ddwyreiniol i fyny o Barc Lansbury i ben y mynydd. Bu gwrthwynebiad chwyrn i hyn yn y gorffennol gan drigolion a chan y lobi gadwriaethol.

Wrth edrych ar gyfleusterau hamdden, dywed y ddogfen ymgynghorol bod angen adnewyddu neu godi canolfan hamdden newydd yn lle'r un ar Barc Virginia a agorodd yn 1976. Rhoddir sylw priodol i ddatblygu Neuadd y Gweithwyr ym Medwas a Chaerffili a chroesawn y newyddion diweddaraf fod arian nawr ar gael ar gyfer datblygu'r neuadd yn Heol y Castell, Caerffili. A diolch byth, mae galw am fwy o fannau parcio ganol y dref.

Mae rhan o'r adroddiad yn edrych ar ddatblygu'r maes parcio sydd ar hyn o bryd yn gwasanaethu archfarchnad Morrison a Chwrt y Castell. Gwyntyllir y syniad o ddarparu parcio aml-lawr a/neu adeiladu mwy o fannau ar gyfer manwerthwyr mewn adeilad a allai ddarparu fflatiau neu swyddfeydd uwchben y siopau. Gwelwn fod gwaith wedi dechrau eisoes ar ddarparu mwy o unedau manwerthu ar stad Cwrt Rawlin (Castle View).



Safle Canolfan Ymwelwyr y Twyn fel yr oedd

Gwyddom fod gwelliannau i'r ardal hon wedi bod dan ystyriaeth ers degau o flynyddoedd ond y broblem sydd wedi codi'n gyson yw amharodrwydd busnesau i fuddsoddi yno tra bod toriadau di-ben-draw ar wariant cyhoeddus. A cheir un rhagdybiad iasol yn y ddogfen, sef "Bydd colli ariannu gan yr Undeb Ewropeaidd fel canlyniad i Brexit yn lleihau cyfleoedd ar gyfer ceisio am arian." Os am wybod mwy, mynnwch gopi o "Caerphilly Basin Masterplan" gan y Cyngor Bwrdeistref Sirol.

Cofio Rhiannon (Nan) Williams, Bargod (1925-2019)



Mae'n debyg y bydd nifer o ddarllenwyr Cwmni a fu'n ddisgyblion neu'n athrawon yn Ysgol Feithrin Bargod yn ystod y 1970au a'r 1980au yn gyfarwydd â gwên annwyl Rhiannon Williams, neu Nan, fel yr oedd yn adnabyddus. Bu'r cyfnod o gynorthwyo yn yr ysgol feithrin honno yn adeg hapus yn ei bywyd. Roedd

Nan yn hoff iawn, **iawn** o blant bach ac yn fedrus gyda chrefftau o bob math, ac roedd chwarae a chanu, symud a phaentio gyda'r plant lleiaf yn dod â llawer o bleser iddi. Rhoddodd flynyddoedd o wasanaeth arbennig yno, ac roedd achos addysg Gymraeg yn y cwm yn agos at ei chalon.

Felly hefyd yr Eisteddfod. Efallai bod rhai yn ei chofio'n gofalu am siop Eisteddfod Cwm Rhymni yn Hanbury Road ym 1989-1990. Gweithiodd yn ddiplino i godi arian at yr Eisteddfod honno a chefnogi'r ŵyl fel aelod o'r côr hefyd. Yn nes ymlaen bu'n aelod o Gôr Merched Aberbargod, a mwynhau eto.

Ond yr hyn a roddai'r pleser mwyaf i Nan oedd cael ei theulu o'i chwmpas yn ei chartref hardd a chysurus yn Hillside Park. Symudodd yno gyda'i gŵr, John, a'u meibion Huwan ac Alun yn y 1960au ar ôl cyfnodau byr yn y Deri, Llanbradach a Phengam. Roedd hi'n gogyddes ac yn wniadreg heb ei hail, ac roedd ei lletygarwch a'i charedigrwydd yn ddjarhebol.

Roedd gan Nan feddwl y byd o'i hwyresau Bethan, Rhiannon, Carys ac Eleri, a'i gor-wyrion, Loti, Catrin, Ifan, Dafydd, Beca a Deio, ac roedd mor falch eu bod nhw i gyd yn byw yn agos fel y gallai ofalu amdany'n nhw. Doedd dim byd yn ormod o drafferth iddi byth.

Un o Rymni oedd Nan yn wreiddiol. Magwyd hi yn Hill Street gyda'i brawd, Morlais, a'i chwaer, Haulwen. Roedd ei thad yn ddiakon yng nghapel Moreia a'i mam yn un o chwiorydd annwyl Jerwsalem. Bu Nan yn ffyddlon a gweithgar ym Moreia ar hyd ei hoes; roedd yn drefnydd effeithiol iawn a hefyd yn gefn mawr i John wrth iddo gynnal yr achos fel ysgrifennydd a thrysorydd tan ei farwolaeth yn 2015.

Yn ei hangladd hardd ym Mhenuel, Rhymni ar yr ail o Fawrth, dan ofal y Parch. Derwyn Morris Jones, Abertawe, soniwyd amdani'n gynnes fel gwraig, mam, mam-gu, hen fam-gu, chwaer, modryb a chymdoges ofalgar, egniol a medrus. Mae'r englyn isod gan Anwen Puw, ei nith-yng-nghyfraith, yn deyrnged hyfryd iddi ac yn ddarlun cywir ohoni.

Un fwyn a chref ei hanian - ei rhuddin
oedd rhoddi ei hunan,
rhannu'i gofal, rhoi'n gyfan
i'w gorchwyl, ein hannwyl Nan.

Dr Sian Rhiannon


Clwb Darllen Cwmni

Yn ei sylwadau ar "Sgythia" mae'r Athro Ceri Davies yn dweud, "Nofel hanesyddol yw hon, yn ymwneud â gyrfa a phrofiadau ysgolhaig o glerigwr, y Doctor John Dafis, yn hanner gyntaf yr ail ganrif ar bymtheg."

Bu John Dafis yn rheithor Mallwyd am dros bedwar deg o flynyddoedd. Roedd ei waith ar y Beibl, Gramadeg, a'r Geiriadur Cymraeg a "Llyfr y Resolution" o bwys i'r genedl, ond bu ei waith dros blwyfion Mallwyd yr un mor arwyddocaol.

Mae eglwys Mallwyd a'r pontydd dros yr afon, heb sôn am y rheithordy, i gyd yn ffrwyth ei ymgyrch dros wella bywydau ei braidd. Roedd teithio yn oes John Dafis yn anodd ac yn araf oherwydd bod yr heolydd ond yn addas ar gyfer marchogaeth. Serch hynny, roedd e'n croesi'r wlad yn gyson ac yn aros oddi cartref am gyfnodau hir er mwyn cyflawni ei waith fel ysgolhaig.

Roedd ei egni a'i frwdfrydedd yn anghredadwy. Cawn hanes ei waith, ei deulu a'i ffrindiau mewn dull darllenadwy sy'n creu naws yr oes. Mae Gwynn ap Gwilym wedi llwyddo i osgoi adrodd hanes sych. Mae'r cymeriadau'n byw mewn cyfnod pan oedd bywyd llawer mwy hamddenol a phethau'n digwydd yn arafach.



Llysghenhadon Y Glowyr

Fel y gŵyr darllenwyr Cwmni mae gan Ganolfan y Glowyr llysghenhadon cynradd gweithgar a chefnogol. Dyma'u hadroddiad nhw am eu cyfarfod diweddaraf pan fuon nhw'n holi dwy foneddiges a fu'n nyrsio yn yr hen ysbyty – rhan o'n prosiect i bontio'r cenedlaethau o fewn i'r ganolfan.

Ddydd Iau, Chwefror 70, daeth Llysghenhadon y Glowyr at ei gilydd am y tro cyntaf yn 2019. Fe gwrddon ni â dwy wraig a oedd yn gweithio yn hen Ysbyty'r Glowyr flynyddoedd yn ôl a chawsom gyfle i'w holi am eu gwaith: Mrs Pat Newton a oedd yn nyrs a Mrs Margaret Craig, bydwraig.



Cawsom lawer o wybodaeth ddiddorol am fywyd a gwaith yn yr hen ysbyty a mwynheun ni eu storïau yn fawr iawn. Clywon ni am fanylion eu gwaith o ddydd i ddydd ond y pethau mwyaf cofiadwy oedd y stori am y dyn ddaeth i mewn i'r ysybyty yn cario gwn pan oedd ei wraig ar fin cael babi a'r stori drist am y wraig a daflodd ei hun o dan drên yng Nghaerffili a cholli ei choes a'i braich. Roedd stori hefyd am dri set o efeilliaid yn cyrraedd ar yr un diwrnod!

Roedd Mrs Newton a Mrs Craig yn mwynhau eu gwaith yn fawr. Roedd Mrs Newton yn mwynhau gweld cleifion yn gwella ac yn cael mynd adref a Mrs Craig wrth ei bodd yn gweld mamau gyda'u babanod Newydd.

Roedd staff Ysbyty'r Glowyr yn gyfeillgar iawn, yn un teulu mawr. Gwnaeth y ddwy lawer o ffrindiau ac maen nhw mewn cysylltiad â rhai ohonyn nhw heddiw. Rydyn ni'n gobeithio bod Canolfan y Glowyr ar gyfer y Gymuned yn lle llawn mor gyfeillgar i'r bobl sy'n ymweld â ni.

Roedd y ddwy wraig yn teimlo bod nyrsio yn llai personol heddiw, efallai oherwydd bod technoleg nawr yn rhan bwysig o'r driniaeth mewn ysbyty. Dwedodd y ddwy hefyd iddynt ddioddef camdriniaeth gan gleifion wrth wneud eu gwaith ac mae'n bwysig i ni gofio pa mor heriol yw gweithio mewn ysbyty.



Fe ddysgon ni lawer iawn am yr hen ysbyty yn ystod y sesiwn ac roedd yn bleser mawr sgwrsio â dwy foneddiges a oedd mor frwdfrydig am eu gwaith

Ann Lewis

“Sgythia” (parhad)

Mae pobol yn siarad mwy â'i gilydd a thynnir y stori yn ei blaen drwy adrodd sgysiau. Heb ormod o ddisgrifio hanesyddol ceir teimlad o ardal sy'n bell o bob man yn yr ail ganrif ar bymtheg. Dydy'r llyfr ddim yn wers hanes sych. Mae'r cymeriadau'n dod yn fyw yn arbennig trwy, er enghraifft, sgwrsio Huwycyn a'i fab Harri, yr adeiladwyr.

Roedd Clwb Darllen Cwmni wedi gwerthfawrogi'r llyfr yma. Fel arfer, os bydd y grŵp wedi mwynhau llyfr y mis mae llai o drafod, ond y mis yma i'r gwrthwyneb oedd hi. Yn sicr, roedd pawb yn cytuno fod hwn yn llyfr darllenadwy, diddorol ac o'r safon uchaf. Rhowch chithau gynnig arno.

Dewch i ymuno â ni ar Ebrill y 1af. Llyfr hanesyddol arall sydd dan y chwyddwydr ond un wedi'i seilio ar chwe degau'r ganrif o'r blaen y tro yma, “Cysgodion Cam” gan Ioan Kidd.

Mary Jones

Bellach mae'r cennin Pedr, baneri'r Ddraig Goch a'r crysau rygbi wedi diflannu o ffenestri'r siopau, a'r gwisgoedd Cymreig wedi eu rhoi i gadw am flwyddyn arall. Mae arwyddion allanol ein dathliadau cenedlaethol wedi eu rhoi o'r neilltu fel-ly, ond ydyn ni'n rhoi ein Cymreictod naill ochr hefyd? Efallai bod rhai yng Nghymru yn gwneud hynny – wedi ticio bocs Mawrth 1af, ac yn symud ymlaen yn syth i dicio bocs Sul y Mamau, cyn mynd ati i dynnu allan yr wyau Pasg a'r cywion a chwningod fflyfflyd...

Ond chi ddarllenwyr y papur hwn? Na, rwy'n siwr bod eich cenhinen yn ddiogel yn eich calon bob dydd o'r flwyddyn. Mae'r ffaith eich bod yn prynu – ac efallai'n darllen - CwmNi yn arwydd sicr eich bod yn arddel eich iaith. Mae rhai ohonoch wedi mynd ati i'w dysgu hefyd. Yr iaith yw'r nodwedd amlycaf a hynaf o Gymreictod, ac mae'r awydd i'w diogelu wedi ei grisialu yn ein hanthem genedlaethol. 'O bydded i'r hen iaith barhau' yw dymuniad pob un ohonom sy'n ystyried ein hun yn Gymry, p'un a fedrwn ei siarad yn rhugl neu beidio.

Fel y dwedais yn y rhifyn diwethaf, mae modd digysylltu Cymreictod oddi wrth y symbolau allanol a ddefnyddir fel llaw fer i'w gyflwyno. Nid yw cysylltiad rhai o'r symbolau hynny â Chymru yn gryf iawn, a pherthyn rhai ohonynt i draddodiad gwerinol ardaloedd eraill yn Ewrop. Ond mae'r iaith yn unigryw i ni, ac mae ein cariad tuag ati wedi ei chadw'n fyw ac yn fywiog ar hyd y canrifoedd.

Credaf fod elfennau eraill llawer llai amlwg yn rhan o Gymreictod hefyd. Dyna'r rheswm pam rwy wedi dewis llun o ddarn o bren i gydfynd â'r erthygl hon.



.Dewis digon rhyfedd efallai – ond nid unrhyw hen foncyff mo hwn.

Mae'n dod o bont hynafol ac fe roddwyd yng ngofal yr Amgueddfa Genedlaethol ym 1927. Bu mewn stôrdy am flynyddoedd, ond wrth wneud arolwg o'r stordai yn ddiweddar, edrychwyd yn fanylach ar y darn hwn o

bren tywyll, gyda hen label arno. Ni fedrwnch ddarllen yr ysgrifen ar y label yn y llun, ond petai modd i chi wneud, byddech yn gweld bod y darn pren hwn â chysylltiad â'n Cymreictod ni heddiw. Mae'n dod o blasdy Sycharth – cartref Owain Glyndŵr.

Owain yw un o arwyr mawr Cymru, ac mae arwyr pob gwlad yn crisialu hanes a gwerthoedd y wlad honno. Wrth gofio am Owain, credaf ein bod yn cofio mwy na thywysog fu fyw ganrifoedd yn ôl, mwy na gwrthryfelwr dewr yn erbyn gormes. Cofiw'n am yr hyn sy'n bwysig i ni fel Cymry. Mae hanes Owain yn distyllu'r gwerthoedd hynny sydd wedi bod yn greiddiol i ni fel cenedl. Pan ofynwyd i'r milwr, anturiaethwr a gwladgarwr Owen Rhoscomyl ble roedd bedd Owain Glyndŵr daeth ei ateb yn syth: "Yng nghalon ei bobl".

Pwrpas y darn o bren o Sycharth oedd cynnal y bont dros y ffos o gwmpas tomen y castell. Roedd yn anweledig ac yn allweddol. Nid yw'n Cymreictod ni yn amlwg bob amser chwaith – ond mae'n allweddol i ni.

Dr Elin Jones

Cymdeithas Edward Llwyd – Allt yr Esgair ger Talybont ar Wysg





Un peth yw gyrru'n hamddenol o gwmpas ein gwlad a gwerth-fawrogi golygfeydd arbennig ond mae llawer mwy i'w weld os dach chi'n penderfynu mynd ar droed. Dw i'n cael y profiad yma bob wythnos ac, yn well byth dw i'n mwynhau cwmni diddorol a llond diwrnod o siarad yr iaith. Un o'n teithiau diweddar oedd crwydro ar grib Allt yr Esgair ac edrych i lawr ar Dalybont tu draw i'r afon Wysg a oedd yn troelli ei ffordd yn hamddenol tuag at y môr a Chas-gwent.

Fel un sydd yn hoff iawn o grwydro efo camera dw i'n ymwybodol bod pob diwrnod yn cynnig golygfa wahanol yn yr un lle. Dyma sut oedd hi y tro yma. Gan ein bod ni mor uchel roedd y gwynt yn chwythu a'n llygaid yn dyfrio ond gan ein bod ni wedi gwisgo'n addas roedden ni'n glyd tu fewn. Digon clyd i weld y posibiladau ar ddiwrnod clir a heulog. Beth bynnag yw'r tywydd mae'n braf bod yn yr awyr iach efo ffrindiau. Mi wnaeth y glaw gadw draw tan i ni fod yn ôl yn y ceir.

Yma yn y de bydd ein teithiau rhwng canol mis Ebrill a chanol mis Mai yn mynd â ni i ardal Caerffili, Efailwen, Cas-gwent, Y Fenni a Wisemansbridge. Croeso i chi ymuno â ni, mae manylion llawn ar ein gwefan <http://cymdeithasedwardllwyd.cymru/gweithgareddaur-de/>

Ydych chi'n gallu dod o hyd i'r DEG gwahaniaeth rhwng y ddau lun?




W Y L S D A O R B T
Y L E W G D A L I D
O S S O N N W G O W
J Y W L B C H E F S
G I R B L O M L I T
W T E T S Y J A H E
R R S I C Y C T O R
S J W M P E R Y S G
A B R L D J W C A S
L L T W E L I O N A

Mae'r DEG gair yma yn y chwilair
Allwch chi ddod o hyd iddyn nhw?

SIACED GŴN NOS CRYD
HOSAN TROWSER BLOWS
TWELION DILLAD GWELY
DWSTER JWMPER

Mae NAW o'r pethau wedi'u cymysgu yn y
peiriant sychu. Ysgrifennwch nhw lawr fan
hyn.



Seland Newydd (Rhan 2)

Ar ôl taith fferi o ryw dair awr fe gyrhaeddodd ni Wellington (ynys y Gogledd) a threulio rhyw dridiau yno. Mae'n borthladd tra prysur a glan y môr wedi ei ddatblygu ac yn ardal hyfryd i dreulio amser yn cerdded. Yno mae amgueddfa Ta Papa a gellid bod wedi treulio tridiau yno yn edrych ar bob adran. Wrth gwrs, mae llawer o le yn cael ei roi i hanes y wlad a'r brodorion gwreiddiol ac mi roedd yna arddangosfa ardderchog ar Galipoli lle lladdwyd miloedd o ANZACS yn ystod y rhyfel byd cyntaf. Cafwyd cyfle i ymlacio yn nhafarn Gymreig y ddinas. Cwrw Brains ar werth (am grochris) a dyma lle cwrddon ni â dau bâr ifanc o dras Cymreig oedd yn teithio'r byd, gan fwynhau gwydraid neu ddau yn eu cwmni'r noson honno.

Rhaid oedd symud ymlaen felly dyma droi trwyn y car am Napier yn ardal Hawkes Bay, enw fydd yn gyfarwydd i'r rhai sy'n hoffi gwin. Yn dilyn daeargryn yn 1931 ail adeiladwyd y dref gyda llawer o'r adeiladau newydd yn steil Art Deco. Tref ddeniadol a hamddenol braf oedd hon. Wrth deithio'r ynys daeth yn amlwg fod y tirwedd yn wahanol iawn i ynys y de â llawer llai o fynyddoedd

Oddi yno ymlaen â ni at un o brofiadau gorau'r daith i mi sef Rotorua, y geisers rhyfeddol a chanolfan Maori hynod o ddiddorol. Yno buom yn rhan o griw fu'n mwynhau croeso unigryw gan frodorion y wlad a phrofi gwledd o ganu a dawnsio traddodiadol a phryd o fwyd wedi ei goginio yn stêm un o'r geisers.



Hefo amser yn hedfan dyma ei throi hi tuag at benrhyn Coromandel ac ar y ffordd aros mewn dwy dref ar lan y môr sef Whangamata a Whitianga. Profiad rhyfedd iawn oedd gweld pobl ar un traeth yn cloddio tyllau yn y tywod ac yn eistedd ynddynt gan fod y dŵr yn gynnes ond rhaid oedd bod yn ofalus gan ei fod yn ferwedig mewn mannau.



O ardal anghysbell Coromandel ymlaen â ni ar hyd yr arfordir nes cyrraedd Auckland. Dyma ddinas fawr a modern iawn. Cawsom lety gyferbyn â chae rygbi Eden Park a thrên cyfleus i fynd â ni i ganol y ddinas. Trip ar y bws coch o gwmpas y ddinas i weld y prif fannau ac ymweliad ar ein diwrnod olaf ag acwariwm Kelly Torton oedd yn werth ei weld.

Wedi pum wythnos o grwydro ar hyd a lled y wlad daeth yn amser, hefo calon drom, i ffarwelio â gwlad nad oeddwn erioed wedi ysu am ymweld â hi. Cefais fy siomi ar yr ochr orau. O ran teithio, dyma un o'r profiadau gorau i mi eu cael erioed. Mor bell i ffwrdd ond mor gyfarwydd rywsut.

Wrth ddringo i'r awyren cawsom un edrychiad olaf ar Auckland a bae yr ynysoedd oddi tanom ond doedd hi ddim yn amser dychwelyd i Gymru eto a stori arall ydy honno hefyd.....

Anwen Hill

Grŵp Cymraeg y Glowyr Cystadleuaeth Sweep y Chwe Gwlad

Diolch i bawb fu'n cystadlu yn sweep rygbi 2019.

Roedd yn gystadleuaeth gyffrous arall eleni tan y gêm derfynol, ond yn anffodus doedd neb wedi rhagweld gêm gyfartal rhwng Lloegr a'r Alban. Byddai buddugoliaeth i'r Alban wedi newid canlyniad y gystadleuaeth gyfan.

Wrth nesu at y penwythnos olaf, roedd tri person ar y blaen gyda'r un sgôr, ac roedd y tri wedi darogan buddugoliaethau i Ffrainc a Chymru. Felly roedd yn rhaid astudio'r 'tie-break' a gweld mai Mr John Poyner oedd yr enillydd! Mae John yn gweithio i Gyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili ac yn ddysgwr Cymraeg brwd sy'n manteisio ar bob cyfle i ymarfer iaith y nefoedd. Llongyfarchiadau i John ac wrth gwrs i'n tîm rygbi cenedlaethol ar eu llwyddiant ysgubol!



Merched y Wawr Cwm Rhymni'n dathlu'r 10!

Ddwy flynedd yn ôl buon ni'n dathlu pen-blwydd mawr yn hanes Mudiad Merched y Wawr, a sefydlwyd ym 1967. Eleni cawsom y pleser o ddathlu penblwydd ein cangen ifanc ni yn y cwm hwn – dim ond deg oed ydyn ni, ond mawr yw'r dathlu serch hynny.

Daeth criw teilwng i gapel Siloh, Ystrad Mynach, ym Medi 2008, i gyfarfod a drefnwyd gan Eirlys Davies, swyddog rhanbarth y De-Ddwyrain gyda Merched y Wawr yn y cyfnod hwnnw. Gydag ychydig o berswâd gan Eirlys, cytunodd rhai ohonom i ymgymryd â'r gwaith o drefnu'r gangen newydd – a chawsom bob cymorth ganddi hi a'i holynwyr, Shirley Williams a Jén Dafis wrth i ni drefnu rhaglenni, siaradwyr, ymweliadau a gweithgareddau.

Hyfryd felly oedd cael y cyfle i ddathlu pen-blwydd mor arbennig yn hanes ein cangen gyda gwledd o ginio yng Ngwesty'r Manor Parc ar Fawrth 20.fed Hyfryd hefyd oedd cael cwmni ein ffrindiau ffyddlon Eirlys, Shirley a Jén (isod), a chlywed eu hatgofion am y gangen ar hyd y degawd. Bu'r noson yn gyfle i ni'r aelodau hefyd rannu'n hatgofion o'n gweithgareddau amrywiol – y cyfarfodydd hwyliog, yr ymgyrchoedd, y teithiau haf, y ciniawa, ac, yn bennaf oll, y cwmni a'r Gymraeg!

Cofion ni am chwysu yn y gegin (dan oruchwyliath amyneddgar a threfnus Gaynor) adeg Eisteddfod yr Urdd, 2015; am drefnu gwasanaeth Nadolig urddasol i'r rhanbarth yng nghapel hynafol Tonyfelin; am gasglu bronglymau

yn heulwen haf (a gyrru trwy wynt a glaw i gyfarfodydd y gaeaf hefyd). ac am gwrdd yng nghastell hen elynion y Cymry yng Nghaerffili, er mwyn dathlu ein hiaith a'n diwylliant yn y

Ffiliffest blynyddol.




Mae cyfoeth o atgofion gennym bob un, diolch i Ferched y Wawr.

A rhag ofn bod ein bod wedi anghofio rhai o'n profiadau, roedd gennym arddangosfa wych o luniau a drefnwyd gan Gwyneth Davies, Jenni Jones-Annetts a Gaynor Williams i brocio'r cof. Fe welwch rai o'r lluniau hynny o fewn cloriau'r rhifyn hwn o Cwmni. Ond roedd rheswm arall gennym i ddathlu, sef cofio am ymroddiad yr aelodau hynny sydd wedi rhoi

o'u hamser i helpu trefnu'r gangen dros y degawd ddiwethaf – yn ysgrifenyddion, trysoryddion ac yn gadeiryddion.

Serch hynny, nid fyddai'r un gangen yn bodoli o gwbl heb aelodau i'w chynnal. Ofer fyddai'r gwaith a'r trefnu heb gefnogaeth gyson i'r gweithgareddau. Felly cawsom gyfle ar Fawrth 20fed i longyfarch ein hunain hefyd am gadw'r fflam ynghyn yma yn ein cwm. Mae blodau'r gwanwyn i'w gweld ymhob man yr adeg hon o'r flwyddyn, wedi hirlwm y gaeaf: mae'r ddraig goch yn chwifio uwchben muriau tywyll Castell Caerffili – ac mae pen-blwydd Merched y Wawr Cwm Rhymni yn ddeg oed yn un o'r arwyddion bod yr iaith Gymraeg hefyd yn fyw ac yn iach yn ein Cwmni!

Dr Elin Jones



Ysgol

Cynllun Gwên



Rydym ni'n rhan o Gynllun Gwên sy'n ein dysgu ni sut i frwsio dannedd yn dda. Daeth Sue Evans o Ysgolion Iach Caerffili i'r ysgol i siarad gyda ni am hyn fel bod pobl eraill yn gwybod am y cynllun.

Rydym ni'n brwsio ein dannedd am hanner dydd bob dydd am ddau funud. Mae'r athrawon yn trefnu ein bysiau brwsys i ni ac yna mae rhaid i ni roi brws yn yr awyr yn barod i ddechrau. Mae Miss Durrani yn rhoi amseroedd ar y sgrin am ddau funud ac mae rhaid i ni frwsio lan a lawr, yn ôl ac ymlaen.

Mae germau yn ein cegau sy'n gallu gwneud i'n dannedd fynd yn ych-a-fi! Os nag wyt ti'n brwsio dannedd yn dda bydd dy ddannedd yn mynd yn felyn neu'n cwmpo mas. Ond, paid â brwsio'n rhy galed neu bydd gwaed yn dy geg!

Rydym ni'n hoffi brwsio dannedd yn y dosbarth am fod ein dannedd yn sgleiniog a'n cegau ni'n teimlo'n ffres. Rydym ni wedi dysgu am y pethau da a drwg i'w bwyta i gadw ein dannedd yn iach ac rydym ni wedi dweud wrth ein mamis a dadis sut i frwsio dannedd hefyd! Gan Ollie Jenkins a Freya Williams, Blwyddyn 2.



Grŵp Gwnïo

Mae grŵp o rieni wedi dod i mewn i ddysgu'r plant sut i wnïo. Mae blwyddyn 2 a 3 wedi cael gwersi yn barod ond, o'r diwedd, dyma gyfle blwyddyn 4!

Rydym ni'n creu wyau Pasg allan o ddefnydd a'u harddurno gyda botymau. Roedd dysgu sut i wnïo yn anodd achos bod y nodwydd yn fach a'r defnydd yn symud. Hefyd, rhaid bod yn ofalus i beidio procio dy fys!

Ond roedd yr oedolion yn ein helpu ni trwy ddysgu sut i ddefnyddio'r nodwydd ac yn datod y clymau! Hefyd, roedd e'n braf cael dod i adnabod mamau rhai o'r plant.

Er bod y gwnïo yn anodd, roedd rhaid trio a thrïo eto tan ein bod ni wedi llwyddo. Roedd e'n llawer o hwyl a phawb wedi mwynhau dysgu rhywbeth newydd gyda'r mamau. Rydym ni'n mynd i ofyn i'n teuluoedd i helpu gyda mwyl o wnïo yn y tŷ. Efallai gawn ni weu tro nesaf?



Penalltau

Gweithdy Cymraeg i'r Teulu

I ddathlu Dydd Gŵyl Dewi eleni a'n gwobr arian Siarter Iaith, cynhaliwyd gweithdy Cymraeg i'r Teulu yn yr ysgol. Estynnwyd croeso i holl deuluoedd yr ysgol ac roedden ni'n falch iawn o weld y neuadd dan ei sang !

Yn ogystal â chyflwyniad o frawddegau syml i'w defnyddio fel teulu gan Mrs Woods, roedd cyfle i gael paned a chlonc wrth fwynhau pice ar y maen.

Ond uchafbwynt y bore oedd perfformiad y dosbarth Meithrin o ganeuon a rhigymau Pori Drwy Stori. Roedd y staff a'r rhieni yn hynod o falch ohonyn nhw'n canu a siarad mor hyderus yn y Gymraeg!

Yng ngeiriau Tom Thompson a Talia Stephens o'r Meithrin, "Rydyn ni wedi gwisgo lan ar ddydd Gŵyl Dewi a mynd i'r neuadd. Roedd y mamis, dadis, mamgus a thadcus yn siarad Cymraeg gyda ni.

Wedyn, roedd y dosbarth Meithrin yn canu a dawnio i'r rhieni, fel Pen, Ysgwyddau, Coesau, Traed. Roedden ni'n hoffi dysgu mam a dad i siarad Cymraeg! Dydd Gŵyl Dewi Hapus!"



Ffrwythau Ffantastig, Llysiau Llon

Tymor diwethaf, daeth grŵp o rieni atom ni gyda'r syniad o ddechrau siop. Roedd e'n bwysig i ni werthu bwydydd iach, ffres a fforddiadwy er mwyn helpu'r gymuned fod yn iachus. Cysylltom ni gyda Veg of Evans yn Ystrad Mynach i ofyn iddyn nhw ddarparu'r bwyd i ni.

Pob dydd Gwener, rydym ni'n gwerthu bagiau ffrwythau a llysiau am £3 y bag. Rydym ni'n cymryd archebion am fagiau amrywiol bob dydd Gwener, fel ffrwythau, stiw, "Mediterranean", llysiau tro-ffrio a salad. Ar ddydd Mercher, byddwn ni'n anfon e-bost at Veg of Evans gyda'r niferoedd ac yna byddwn ni'n pacio'r bagiau ar ddydd Gwener yn barod i'w dosbarthu ar ôl ysgol.

Yn ogystal â'r bagiau, rydym ni'n gwerthu wyau ffres sydd wedi'u dodwy gan ein hieir yn yr ysgol. Wrth redeg y siop, rydym ni wedi datblygu sgiliau mathemateg a thrin arian, sgiliau llafar a chyfathrebu a sgiliau cydweithio. Mae rhedeg siop yn gallu bod yn rhwystredig ac yn anodd trefnu ond mae e wedi ein helpu i ddatrys problemau ac rydym ni'n mwynhau.

Felly, os ydych chi eisiau archebu llysiau, ffrwythau neu wyau, cysylltwch â blwyddyn 6 yn ein siop Ffrwythau Ffantastig, Llysiau Llon!

Gwisgwch Goch i Felindre

Cynhaliwyd diwrnod arbennig i godi arian at elusen ar ddiwedd mis Chwefror. Roedd pawb wedi gwisgo coch i godi arian dros elusen cancr Felindre. Diolch i bawb am eu rhoddion hael: codwyd £370.



Trefnwyd y diwrnod gan Mrs Sonja McFadden, clerc yr ysgol, sydd yn brysur yn codi o leiaf £4,000 i'r elusen.

Flwyddyn nesaf, bydd Mrs McFadden yn cerdded Wal Fawr Tsiena gyda'i mam i gefnogi gwaith Felindre. Bydd gweithgareddau amrywiol yn digwydd dros y flwyddyn nesaf, megis gwerthu cacennau, ailgylchu dillad, bath mewn ffa pob ac ati! Cysylltwch â ni os hoffech ei noddi neu dderbyn mwy o wybodaeth. Pob lwc, Mrs McFadden!

Stori Bedwellty - Y Drydedd Ran

Pentref gweddol fach yw Bedwellty ac anaml mae nifer y boblogaeth wedi cyrraedd tri ffigwr. Roedd unwaith yn bentref nodweddiadol gydag eglwys, fferm, dwy dafarn, gefail y gof, gwerthwr caws, saer olwynion, saer maen, a hefyd ffatri cynhyrchu dŵr mwynol ar un adeg. Mae ffynnon Sant Sannan i'w gweld gerllaw; dyma lle cai y pentrefwyr eu dŵr ar un adeg.

Roedd cymeriad lleol o'r enw Shoni Syllt a gyhoeddodd ei fod am hedfan o dŵr yr eglwys. Roedd tafarnwr y *Church Inn* yn disgwyl torf yno i wyllo'r cyfan ac fe archebodd gyflenwad hael o fara, caws a chwrw. Ar y diwrnod penodedig, wedi i bawb orffen bwyta ac yfed, a thra oedd y dorf llawn cyffro islaw yn ei wyllo, fe ddringodd Shoni'r tŵr.

'A welsoch chi ddyn yn hedfan o dŵr eglwys erioed?' gwaeddodd Shoni. 'Na', llefodd y dorf. Gofynnodd yr un cwestiwn deirgwaith a 'Na' oedd yr ateb bob tro. Wedyn, gwaeddodd Shoni: 'Wel, sut ddiawl ydych chi'n disgwyl i mi wneud, 'te?' Ac fe ddiflannodd!

Y *Church Inn* oedd pencadlys ymladdwyr 'dyrnau noeth y mynyddoedd'. Un o'r ymladdwyr a gai ei gofio'n bennaf oedd Bill Jones. 'Scotchin' oedd ei lysenw ac roedd ganddo law chwith dda yn ôl y sôn! Fodd bynnag, ni fyddai'n ymladd allan o olwg tŵr yr eglwys. Yn hwyr un noson roedd yn cerdded i'r *Church Inn*, pan glywodd sŵn ceffylau a charnau uwch ei ben. Rhedodd i fyni grisiau ysgubor y dafarn gan orchuddio ei hun gyda gwellt ac er gwaetha'i ofnau fe syrthiodd i gysgu. Pan ddeffrôdd y bore wedyn, clywai y carnau o hyd ond wrth iddo edrych allan, gwelodd, er mawr ryddhad iddo, mai baner yr eglwys yn taro yn erbyn y polyn oedd achos y sŵn. Yn ystod ei flynyddoedd olaf bu Scotchin yn ffeirio paraffin am wisgi ac fe ddywedir ei fod yn ofni canhwylau wedi'u goleuo.



Tafarn yr Eglwys



The Terrible Eight 1914 Bedwellty Jones sydd ar y dde yn y ffrynt

Daeth brodor o Fedwellty yn enwog fel chwaraewr rygbi rhyngwladol. Roedd Jack 'Bedwellty' Jones yn aelod o'r blaenwyr a ddaeth yn adnabyddus fel '*The Terrible Eight*', yn dilyn gêm neilltuol o rymus yn erbyn Iwerddon. Yn ddiweddarach fe ddaeth yn chwaraewr proffesiynol ar ôl arwyddo gydag Oldham am daliad o 100 sofren. Roedd hyn ym 1914 ac fe wahoddwyd cyfeillion a chymdogion y teulu i gartref y Jonesiaid i weld Cap Rhyngwladol Cymru Jack yn llawn darnau arian.

Ychydig o newid fu i'r pentref dros y blynyddoedd ac mae'n parhau i fod yn glwstwr o fythynnod a thai o gwmpas eglwys Sant Sannan, yr hen reithordy sydd bellach yn gartref preifat, fferm Dan y Llan a thafarn y *Church Inn*. Hyd yn gymharol ddiweddar safai'r *Countryman Hotel*, tafarn y *New Inn* a stadiwm rasio milgwn Bedwellty a oedd yr hynaf yng Nghymru a Lloegr yn ôl y sôn. Mae Bedwellty'n parhau i fod mor fywiog ag erioed ac yn fan canolog i'r plwyf a'r cymunedau cyfagos. Cewch addoli yn eglwys Sant Sannan, mwynhau pryd o fwyd a pheint yn y *Church Inn* a manteisio ar y llwybrau cerdded a'r golygfeydd godidog.



*High above the Rhymney Valley
In the distant years to be
Bedwellty Church shall stand and triumph
Singing of eternity.*

Dyma sut y daw Idris Davies â'i gerdd "Bedwellty Church" i ben

Clive Williams

Colofn Dafydd Islwyn


Eleni mae hi'n ganmlwyddiant geni'r diweddar Brifardd Dafydd Owen, Hen Golwyn. Rhestrir ef ymhlith y ddau ddwsin o brifeirdd sydd, ers 1862, wedi ennill y Goron a'r Gadair yn y Genedlaethol. Roedd ef hefyd yn awdur toreithiog. Ei gyfrol gyntaf oedd 'Beirdd y Bore', cyhoeddwyd gan Lyfrfa'r Annibynwyr, Abertawe, yn 1945. Pryna is gopi ohoni ugain mlynedd ar ôl ei chyhoeddi! Torrais fy enw arni mewn beiro goch newydd, dechrau ar fy ngyrfa fel athro ysgol gynradd yn Nhrelewis yr oeddwn! Ymhen blwyddyn neu ddwy fe'm cynghorwyd gan y llyfrwerthwr adnabyddus yn ei ddydd, J. Goronwy Hughes, Bangor, i beidio â thorri fy enw ar fy llyfrau. Cynghorodd fi i dorri fy enw ar ddarn bach o gerdyn ysgafn a'i osod yn y llyfrau.

Wrth edrych am y gyfrol 'Beirdd y Bore' ar y silffoedd, syrthiodd fy llygaid ar 'Dyddiadur Dewi Llwyd, Pawb â'i Farn', y Lolfa, 2017. Ynddo mae llun o'i daid a'i nain, rhieni ei dad, y tu allan i'w cartref rhwng Rhymni ac Abertyswg! Mae Dafydd Owen yn cyflwyno deg bardd a fu farw yn ieuanc. Yn eu mysg mae Ann Griffiths, yr emynyddes; Ieuan Gwynedd, gweinidog a newyddiadurwr sy wedi ei gladdu yn Y Groeswen; Hedd Wyn sy â'i deulu yn dal i fyw yn ein hardal a Dei Ellis, bardd.

Ganwyd ef ar y cyntaf o Chwefror 1893 ym Mhenyfed ger Pont y Glyn sydd ar y brif ffordd o Gorwen i Gerrigydrudion. Yr oedd yn gefnder i'r nofelwraig, Elena Puw Morgan (1900-1973), awdur 'Y Wisg Sidan' ac 'Y Graith'. Roedd yn un o gyfoedion Kate Roberts yng ngholeg Prifysgol Cymru, Bangor, rhwng 1910 a 1913. A oeddynt yn fwy na chyfeillion? Bu Dei Ellis yn athro yn Ninmael, Llangollen, Bae Colwyn, a Morpeth, Northumberland ar ôl gadael y coleg.

O Morpeth yn 1916 ymunodd Dei Ellis â'r R.A.M.C. fel ugeiniau o fyfyrwyr Cymru. Corfflu Meddygol a ffurfiwyd oedd y "Royal Army Medical Corps" ar gyfer rhai o dueddiad heddychlon a ddymunai wasanaethu yn y Rhyfel Mawr. Yn eu mysg yr oedd W.H. Edwards, Esgairgeiliog, Machynlleth.

Yn y gyfrol, 'Breuddwyd Cymro Mewn Dillad Benthyl', 1964, mae'r awdur R. R. Williams yn dwyn i go' y rhai fu'n gwasanaethu yn y Corfflu Meddygol. Yn y gyfrol cyfeirir at W. H. Edwards fel dyn o Fedlinog! Ac fe ddichon mai i'r pentref glofaol hwnnw yr aeth i chwilio am waith cyn mynd i Goleg y Bala i baratoi ar gyfer mynd yn weinidog yr efengyl. Sôn am Fedlinog a Threlewis, yn fy myw ni allaf eu gollwng o Gwm Rhymni! Fe laddwyd W.H. Edwards yn Salonica ar y 7fed o Hydref 1917 yn 32 mlwydd oed. Gweithiodd Dei Ellis dri englyn coffa iddo. Dyma'r cyntaf,



Hyd waenydd Macedonia – haf hoenus

Ar y fynwent tania;

Tan ei fflur heb haint na phla

Y gorwedd gŵr hawddgara.

Ganol mis Mehefin 1918 derbyniodd Dei Ellis newydd drwg o Gymru. Meddai Kate Roberts yn ei hysgrif 'Bardd a Gollwyd', "Ar y 15fed o Fehefin 1918 aeth allan am dro ar ôl brecwast, ar ôl bod ar waith nos; ni ddaeth yn ôl, ac ni welwyd byth mohono wedyn, nac yn fyw nac yn farw!" Mae Kate Roberts yn holi, "A oedd cysylltiad rhwng y ddau beth, ni ellir dweud."

Cyfaill agos arall i Dei Ellis oedd Cynan (1895-1970). Yn y Genedlaethol yng Nghaernarfon yn 1921 enillodd Cynan ei Goron gyntaf am ei bryddest gofiadwy, 'Mab y Bwthyn'. Ynddi ceir adlais o stori Dei Ellis.

Defnyddiodd yn helaeth hefyd y stori yn ei nofel, 'Ffarwel Weledig - Rhamant am Facedonia', Gwasg y Bwthyn, 1946. Ar ôl graddio ym Mangor yn 1916 fe ymunodd Cynan â'r 'Welsh Student Company R.A.M.C.' hefyd.

Atebion Posau'r Plant


DISACE—SIACED ONGSWN—GŴN NOS

YRCS—CRYN NOSHA — HOSAN

RWSTER—TROWSER WOBLS—BLOWS

NOWELIT—TWELION

STWRED —DWSTER JERPWM— JWMPER





Cyfarchion mis Ebrill i chi i gyd. Ydych chi'n darllen hwn ar y cyntaf o Ebrill tybed. Os ydych chi, wel mae gwobr arbennig i unrhywun sy'n ffonio golygydd Cwmni cyn 12 o'r gloch heddiw. O na, mae'n ddrwg gyda fi – FFŴL EBRILL!!!

Rydyn ni'n hoffi chwarae triciau ar ein gilydd ar Ebrill y cyntaf ac mae hyn yn hen draddodiad sy'n digwydd mewn llawer o wledydd eraill hefyd. Weithiau mae stori wirion yn y papur newydd neu ar y newyddion. Unwaith roedd eitem ar Panorama yn dangos y cynhaef spaghetti yn yr Eidal!

Felly sut dechreuodd yr arfer o wneud ffŵl Ebrill o bobl? Mae un esboniad yn dweud bod y traddodiad yn mynd nôl mor bell â stori Arch Noa! Yn y stori, danfonodd Noa golomen allan o'r arch i weld a oedd y dilyw wedi cilio. Yn anffodus, danfonodd y golomen yn rhy gynnar, roedd dŵr dros y byd a doedd dim lle iddi hi lanio. Felly daeth hi nôl i'r arch. Ar ba ddyddiad ydych chi'n meddwl gwnaeth Noa y camgymeriad yma? Wel ie, ar Ebrill y cyntaf ac rydyn ni'n chwarae triciau ffŵl Ebrill ar ein ffrindiau i gofio am Noah!!

Wel, iawn.....mae hon yn stori wirion ond mae'n ddiddorol hefyd ac wrth gwrs – mae hi'n fis Ebrill!

*golygydd : editor
stori wirion : a silly story
y dilyw : the flood*

*hen draddodiad : an old tradition
cynhaef : harvest
wedi cilio : had retreated*

*gwledydd eraill : other countries
esboniad : explanation
colomen : dove
camgymeriad : mistake*

Mudiad Meithrin yn penodi Prif Weithredwr dros dro



Mae Mudiad Meithrin wedi penodi Pennaeth Datblygu Gwasanaethau presennol y Mudiad, Leanne Marsh i ymgymryd â swydd y Prif Weithredwr yn ystod cyfnod mamolaeth Dr Gwenllïan Lansdown Davies o 18 Mawrth hyd ddiwedd Mehefin eleni.

Hefyd, mae'n bleser gallu cyhoeddi mai Carys Gwyn, Rheolwr Talaith y Mudiad yn y Gogledd-ddwyrain, fydd yn ymgymryd â swydd Leanne am yr un cyfnod.

Dechreuodd Leanne, sy'n byw ym Maesycwmer ger Caerffili, weithio i Mudiad Meithrin yn 2000 fel Swyddog Datblygu Merthyr Tudful ac yna fel Cydlynnydd Blaenau Gwent, Torfaen a Chaerffili. Gadawodd y Mudiad yn 2004 i ennill mwy o brofiad fel swyddog datblygu cymunedol a rheolwr cyn

Gwenllïan Lansdown Davies a Leanne Marsh

dychwelyd i'r 'un teulu mawr' yn 2012 fel Rheolwr Talaith y De - Ddwyrain. Cafodd ei phenodi fel Pennaeth Adran Datblygu Gwasanaethau yn 2015.

Cafodd Leanne ei geni a'i magu ym Mhontypridd i deulu di-Gymraeg. Cafodd ei haddysgu yn Ysgol Heol y Celyn yn Rhydyfelin, ac yna Ysgol Gyfun Rhydfelen cyn astudio am radd yn y Gymraeg ym Mhrifysgol Bangor.

Gwersfeistr Coginio

i oedolion

Dydd Sadwrn, Ebrill 13

10:00 - 14:00

Ystafell Coginio
Safle Y Gwyndy, Caerffili
(Mynedfa drwy'r ganolfan chwaraeon)

Addas i bawb. Byddwn yn darparu'r cynhwysion

£25

Rhaid bwcio cyn
Ebrill 5ed

Gweithdy Coginio PASG

Dewch i greu ac addurno cacen ar thema Y Pasg.

Dydd Mercher

Ebrill 17

10:00-14:00

Oedran
9-12

@ Groundworks, Bryn Road,
Pontllanfraith, Blackwood, Gwent NP12 2BH

£15

**** Rhaid bwcio cyn Ebrill 12 ****

Crefft Pasg Squishies+ Slime

Dewch i greu tegan Squishie a slime eich hunain.

Dydd Llun

15-04-19

10:00-12:00

Canolfan Glowyr Caerffili
Caerphilly Miner's Centre

Dydd Mercher

24-04-19

10:00-12:00

Gilfach YMCA
Aeron Pl, Bargoed CF81 8JA

£10

Oedran
6+

**** Rhaid bwcio cyn Ebrill 12 ****

GWEITHDY GEMAU RETRO

1:00-3:00pm

Dydd Mawrth
Ebrill 16

£5

Oedran
6+

Menter Caerffili, Suite
1 Parc St Margarets,
Aberbargoed CF81

Chwarae gemau fideo a
chyfle i recordio ar ein
sianel Youtube

**** Rhaid bwcio cyn Ebrill 12 ****

Merched y WawrCwm Rhymni



Nos Fercher, 17^{eg} o Ebrill am 7:30

Haf Weighon

Gwaith Celf Cain Mewn print, paent a phwythau

Bethel Caerffili

Croeso mawr i bawb

Cyswllt: Gaynor Williams ☎ 01443 814079

Festri Tonyfelin, Caerffili

Llenyddda

Cystadlaethau Llenyddol a
Drama Eisteddfod eleni

Yr Athro E. Wyn James

Nos Fawrth, 16^{eg} o Ebrill
7:00 tan 9:00

Croeso Cynnes i Bawb

Clwb Darllen Cwmni

Llawr Cyntaf
Llyfrgell Newydd Caerffili

2:00 o'r gloch

Ebrill 1af: Cysgodion Cam
gan Ioan Kidd

Mai 13eg: Ar Drywydd Llofrudd
gan Alun Davies

Mehefin 3ydd: Perthyn
gan Sian Northey

Gorffennaf 1af: Agor Cloriau
gan John Phillips

penneyje961@gmail.com

Croeso Cynnes i Bawb

CAFFI CLONC

Dewch am baned a sgwrs yn y Gymraeg
yng nghaffi'r Ystafell Fyw. Bydd plant yr
ysgol Gymraeg Gilfach Fargoed yn eich
gweini ac yn cynnal sesiynnau trafod.

Dydd Gwener 10:00 - 12:00

Caffi Yr Ystafell Fyw

(wrth y Ganolfan Iechyd Rhosyn Gwyn,
Tredegar Newydd)



Dyddiadau tymor yma:

Ebrill 5ed



Clwb Cerdd Cwm Rhymni

Canolfan Siloh,
Ystrad Mynach

13^{eg} o Ebrill am 2:30

Zephyr Winds Trio

£8 (£7.50 i bensiynwyr)

Lluniaeth Ysgafn

Clwb Darllen Dysgwyr Caerffili

Cyfarfod nesa:

Dydd Gwener 12 fed o Ebrill
"Arwyr Cymru" gan Jon Gower
2 o'r gloch yn Llyfrgell Caerffili

Cofiwch hefyd am:

Y bore coffi ym Medwas, Caffi'r Graig
bob dydd Llun o 10.30 ymlaen
A'r bore coffi yn y Malcolm Uphill
(Wetherspoons), Caerffili
bob dydd Mawrth o 10 o'r gloch ymlaen

Cyswllt: penneyje961@gmail.com

Croeso i Bawb



Pam Adnoddau Staffio?

Sefydlwyd Adnoddau Staffio yn benodol i weithio o fewn y sector drwyddedig a diwydiannol gan ddarparu staff ar gyfer cwmnïau Bwyd, Diod a Diwydiannol. Mae gennym staff profiadol ac ymroddedig. Mae hyn yn ein galluogi i ganolbwyntio yn benodol ar eich sector chi. Gyda gwybodaeth eang o reoliadau'r sector, mae ein polisi and gweithdrefniadau wedi'u llunio i'ch cefnogi, fel client.

Deallwn fod gennym gyfrifoldeb corfforaethol a chymdeithasol i warchod ein gweithwyr ac mae gennym bolisiau penodol yn eu lle i osgoi masnachu mewn pobol a chaethwasiaeth fodern - problem o fewn y diwydiant.

Cyfarwyddwr Reolwr: **Steven John Skivens**
steves@resourcestaffing.co.uk

Adnoddau Staffio Cyf. www.resourcestaffing.co.uk



Cwrw da Cymraeg a Gwasanaeth Cymraeg

Uned B27 Ystâd Ddiwydiannol Trefforest CF375YB



Ar agor pob dydd Gwener 09:00 – 17:00.

Y Bar ar agor Dydd Gwyl Dewis (12:00- 01:00 a Dydd Sadwrn
2ail o Fawrth (02:00-01:00)
#Lolffest 6 ar Ebrill 62 a'r 7fed (12:00 – 01:00)

www.twtlol.com

TACSI GORSAF CAERFFILI

Cysylltwch â KEITH ar

022 362364 neu 07914 355195

facebook.com/tacsigorsafcaerffili



Defnyddiwch Gardiau Debyd/Credyd



01443 879396

PFSS

“Yn gweithio i leihau neu ddileu risg”

ASESIAD RISG – YDYCH CHI WEDI GWNEUD UN?

Am nodi pris heb rwymedigaeth gan Asesydd Tân
cymwys. Cysylltwch â ni:

029 20 888798 07812 636655

PFSS@hotmail.co.uk



- * Cynllunio a Rheoli Cymunedau Busnes
- * Cyngor arbenigol a chymwys
- * Offer tân ac achub
- * Hyfforddiant ymarferol a damcaniaethol
- * Cyngor ac Ymgynghoriad
- * Cynlluniau, gweithdrefnau a pholisïau
- * Asesiad ac archwiliad risg
- * Addasu adeiladau
- * Ardaloedd arbenigol
- * Systemau nyrsiai ar alwad
- * Larwm tân a goleuadau brys
- * Gosod a gwasanaethu offer
- * Profion trydanol

Cyngerdd

Concert in aid of



gyda | with

Huw Euron
Elen Morlais

Côr Cwm Ni

Ysgol Gymraeg Caerffili

Côr Ieuenctid Caerffili

Disgyblion Cwm Rhymni

11 | 4 | 2019

7.30pm

Neuadd Campws y Gwyndy
Ysgol Gyfun Cwm Rhymni
Caerffili

Tocynnau | Tickets

Oedolion | Adults - £5

Plant | Children - AM DDIM | FREE

Talu wrth y drws | Pay at the door

gyda chefnogaeth



www.eisteddfodycymoedd.cymru